


Swydd Wag

# Prif Weithredwr Dros Dro

£60,000 y flwyddyn
(pro rata ar gyfer y cyfnod penodol 6 mis)

Llawn amser (37.5 awr yr wythnos)

Swydd dros dro am 6 mis

Dyddiad cau 10am - 18/04/24

Hijinx

# NEGES GAN EIN BWRDD...






Diolch am fynegi diddordeb yn y swydd Prif Weithredwr Dros Dro Hijinx (Swydd dros dro am 6 mis).

Mae ein Prif Weithredwr presennol, Sarah Horner, yn symud i swydd newydd yn Baker Richards Consulting yn gynnar ym mis Mai. Dros y pedair blynedd a hanner diwethaf mae Sarah wedi arwain Hijinx trwy gyfnod o newid, twf a chadarnhau, gan godi ein proffil a'n llais trwy gyfnod cythryblus i'r celfyddydau a'r byd yn ehangach. Trwy gydol y pandemig Covid, cadwodd Hijinx yn agored, gan gadw ein rhaglen i redeg ar-lein, creu cynyrchiadau digidol blaengar, ac eiriol dros ein cymuned.

Ers i weithgareddau yn y cnawd ddod yn ôl, mae Hijinx wedi llwyfannu'r degfed o'n gŵyl ryngwladol Undod, teithio ar draws Ewrop, wedi cael llwyddiant anferth gyda'n cynyrchiadau, gan gynnwys Housemates ar y cyd â Sherman Cymru. Rydym wedi cefnogi ein hactorion wrth iddynt lunio eu gyrfaoedd actio, gyda nifer yn sicrhau rhannu amlwg ar y llwyfan a'r sgrin.

I Hijinx roedd Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2023 yn amser allweddol, ac roeddem yn falch iawn o sicrhau cynnydd sylweddol yn ein grant aml-flwyddyn. Rhan allweddol o'r swydd hon fydd goruchwylio'n cyfnod trosglwyddo i'n cytundeb cyllido newydd a chyflawni ein Cynllun Strategol uchelgeisiol.

Wrth i Sarah adael, mae'r bwrdd wedi penderfynu cymryd amser i weithio gydag ymgynghorydd allanol i werthuso a phenderfynu ar y strwythur a model arwain gorau ar gyfer y cyfnod nesaf yn unol â'i weledigaeth a'i werthoedd, a'r byd y mae Hijinx yn gweithredu ynddo sy'n newid yn gyflym. Mae diddordeb mewn safbwyntiau newydd yn ogystal â chydnabod yr angen am broses werthuso i ymgysylltu a chael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ymddiriedolwyr a staff. Bydd y Prif Weithredwr Dros Dro yn ganolog i'r broses hon, gan gysylltu gyda'r bwrdd ymgynghorol, staff a rhanddeiliaid ehangach dros y misoedd nesaf.

Rydym yn chwilio am bobl gyda sgiliau mewn arwain newid, rheoli sefydliadol, cyllid strategol a llywodraethu. Yn ddelfrydol rydym yn chwilio am rywun â phrofiad mewn swydd arwain uwch yn y celfyddydau neu'r trydydd sector ehangach, a all ddod i ddeall sefydliad prysur a deinamig yn gyflym..

Rydym yn rhagweld y byddai'r swydd hon yn cael ei chynnig ar sail amser llawn ond rydym yn barod i wrando ar gynigion gwahanol a threfniadau gwaith hyblyg.

Os hoffech chi gael trafodaeth am y swydd, cysylltwch â Sarah (Prif Weithredwr) sarah.horner@hijinx.org.uk neu Rebecca (Adnoddau Dynol) hr@hijinx.org.uk

# CROESO

Diolch am wneud ymdrech i ddysgu mwy am Hijinx a'n swydd wag ar gyfer Prif Weithredwr Dros Dro. Rydym yn awyddus i rannu mwy gyda chi!

Yn y pecyn hwn, fe welwch ychydig o wybodaeth gefndir am Hijinx, a manylion llawn am y rôl a sut i ymgeisio.

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae gennym ymdeimlad cryf o gymuned. Fel tîm, mae teulu ehangach Hijinx yn bwysig iawn i ni ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cyfoethog a chefnogol, y gobeithiwn y bydd yn caniatáu i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym yn gweithio'n galed, yn chwarae'n galed ac yn chwerthin llawer!

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth neu gymorth cyn ymgeisio, neu os hoffech drafod unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau mynediad i ganiatáu i chi gyfranogi'n llawn yn y broses gyfweld, cysylltwch â ni yn hr@hijinx.org.uk

Diolch am eich amser – rydym ni wir yn edrych ymlaen at glywed gennych, ac archwilio sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch brwdfrydedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n gwaith.

Sarah
Sarah Horner, CEO



EIN GWELEDIGAETH
Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

EIN CENHADAETH
Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

Hijinx

AM HIJINX
Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen ffilm sy'n tyfu ac arlwy cymunedol ac allgymorth deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r celfyddydau a diwydiannau creadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu arobryn.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

## RYDYM YN CREU NEWID TRWY FYW AC ANADLU EIN NODAU SEFYDLIADOL...



Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin



Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.





Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru



"Mae pobl ag anableddau yno i ddangos i bobl ein bod ni'n ddynol ac rydyn ni eisiau iddyn nhw gael eu diddanu gan yr hyn rydyn ni'n ei wneud."

# DISGRIFIAD SWYDD
# PRIF WEITHREDWR DROS DRO






Fel Prif Weithredwr Dros Dro Hijinx, byddwch yn arwain y blaen o ran hyrwyddo ein gweledigaeth a’n cenhadaeth.

Bydd eich arweinyddiaeth yn llywio’r sefydliad tuag at gyrraedd cerrig milltir rhyfeddol o ran cynhwysiant, cynrychiolaeth, a chyflogi proffesiynol ar weithwyr proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu Awtistig.

Dros y 10 mlynedd diwethaf mae Hijinx wedi bod ar daith ryfeddol o dwf a llwyddiant. Wedi parhau i greu a dysgu trwy’r pandemig, mae Hijinx wedi ymddangos ar ôl Covid fel sefydliad sydd hyd yn oed yn fwy blaengar ac ymatebol, gan adeiladu ar ein llwyddiannau i ffynnu.

Gyda’n Prif Weithredwr presennol, Sarah Horner, yn symud ymlaen yn ei gyrfa ym mis Mai, mae gennym angen dod â Phrif Weithredwr profiadol i mewn ar unwaith ar sail dros dro i sicrhau parhad a sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod hwn o newid, tra byddwn yn cynnal cyfnod pwysig o ystyried ein hanghenion tymor hwy a’n ffocws yn y swydd allweddol hon.

Fel un o nifer fechan o sefydliadau a dderbyniodd gynnydd yn y gefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn eu Hadolygiad Buddsoddi diweddar - o £155,000 23/24 i £390,000 24/25; mae’r bennod nesaf i Hijinx yn uchelgeisiol a chyffrous.

Mae sicrhau bod cam cyntaf ein cytundeb cyllido newydd gyda Chyngor y Celfyddydau yn cael ei gyflawni yn elfen allweddol o’r swydd hon, gan arwain ar wireddu ein cynllun busnes strategol trwy bedair blaenoriaeth strategol:


- Cynyddu mynediad at greadigrwydd, hyfforddiant, gwaith a lleoedd
- Cynyddu ein gallu i gyrraedd a chryfhau ein heffaith, i sicrhau bod cymaint o bobl ag sy’n bosibl yn gallu ymgysylltu â’r celfyddydau, a chyflawni eu potensial
- Cynyddu’r gallu i gyflawni ein gwaith a’n potensial creadigol
- Sicrhau bod ein gwaith yn gynaliadwy, yn gefnogol i genedlaethau’r presennol a’r dyfodol, a’n planed

Y Prif Weithredwr Dros Dro sy’n gyfrifol am roi arweiniad strategol a gweithredol gyda phwyslais penodol ar reolaeth ariannol a phobl, creu incwm a holl ymrwymiadau cyfreithiol a chontractaidd y cwmni.

Bydd y Prif Weithredwr Dros Dro yn cael cefnogaeth lawn ein bwrdd ymddiriedolwyr gweithredol a medrus, yn benodol yr is-bwyllgorau Pobl a Chyllid, sy’n gweithio’n glos gyda’r tîm gweithredol uwch i arwain ein strategaethau ariannol, cynhwysiant a phobl.

# DISGRIFIAD SWYDD
# PRIF WEITHREDWR DROS DRO (2)





Fel Prif Weithredwr Dros Dro byddwch yn:

- Arwain ac ysbrydoli ein tîm ymroddedig i gyflawni nodau sefydliadol, gan gynnwys cynyddu cynrychiolaeth ar lwyfan a sgrin i weithwyr creadigol proffesiynol ag anabledd dysgu a/neu awtistig, a thrawsnewid y sector i weithio’n fwy cynhwysol.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol, a rhagoriaeth weithredol ar draws pob agwedd o’r sefydliad.
- Meithrin a chynnal partneriaethau gyda rhanddeiliaid, cyllidwyr, a’r gymuned gelfyddydol ehangach i hyrwyddo ac ehangu effaith Hijinx.
- Hyrwyddo llesiant ein staff, gan sicrhau gweithle sy’n rhoi gwerth ar wahaniaethau unigol, sy’n cefnogi twf proffesiynol, ac yn ymrwymo i gyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth.

Mae’n bwysig i’r Prif Weithredwr Dros Dro allu arwain yn hyderus trwy’r cyfnod hwn o newid ac i roi sicrwydd ac arweiniad pwysig i’r tîm uwch ac ehangach.

Rydym yn chwilio am sgiliau penodol mewn arwain pobl, cyllid a newid a bod yn gyfarwydd â’r celfyddydau a/neu’r trydydd sector.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol:

- Brofiad arwain profedig yn y sectorau celfyddydau, diwylliant neu nid er elw, gydag angerdd dros gynhwysiant ac effaith cymdeithasol.
- Dull llawn gweledigaeth o arwain sefydliadau tuag at dwf a blaengaredd.
- Gallu ariannol cryf a sgiliau cynllunio strategol.
- Gallu rhagorol i gyfathrebu a llunio perthynas, gyda thalent ar gyfer meithrin cydweithrediad a phartneriaethau.
- Ymrwymiad dwfn i gynhwysiant, amrywiaeth a llesiant staff ac aelodau o’r gymuned.



# CYFRIFOLDEBAU PRIF WEITHREDWR DROS DRO (1)

**BLAENORIAETHAU'R PRIF WEITHREDWR DROS DRO**

- Gweithio gydag ymgynghorwyr allanol i adolygu arweinyddiaeth a strwythurau sefydliadol ehangach i gefnogi Hijinx i gyflawni ei gynllun strategol.
- Gweithio'n glos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig i arwain y tîm uwch a chefnogi'r tîm staff trwy gyfnod o newid.
- Eiriol dros Hijinx a'i gymuned mewn sgyrsiau ehangach yn y sector.
- Sicrhau bod trosglwyddiad llyfn i'r cytundeb newydd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, gan oruchwylio, monitro a rhoi adroddiadau ar weithgareddau.
- Cefnogi recriwtio ar y bwrdd a chynefino ymddiriedolwyr newydd i'r sefydliad.
- Darparu arweiniad strategol a gweithredol cynhwysfawr, gyda phwyslais penodol ar reolaeth ariannol a phersonél, creu incwm a holl ymrwymiadau cyfreithiol a chontractaidd y cwmni.

**ARWEINYDDIAETH A DIWYLLIANT**

- Meithrin diwylliant sefydliadol sy'n dangos cynhwysiant ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau holl aelodau'r staff.
- Arwain yr Uwch Dîm Rheoli, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Artistig, Rheolwr Cyllid, cyfarwyddwyr ein pum maes allweddol: Theatr, Ffilm, Cyfranogiad, Swyddi ac Academi, yn ogystal â marchnata a datblygu, gan osod safon uchel o ran arwain a chefnogi.
- Sicrhau bod pwyslais ar ddatblygu proffesiynol parhaus i holl aelodau'r tîm, gan gynnal safonau uchel o ran hyfforddi a datblygu.
- Gyrru gwella perfformiad a newid cadarnhaol trwy'r sefydliad i gyd, gan osod safonau a disgwyliadau uchel ar gyfer pob maes gweithredu.

**GWELEDIGAETH AC EIRIOLAETH**

- Sicrhau bod amcanion tymor byr yng nghynllun busnes Hijinx yn cael eu gweithredu, gan gadw at weledigaeth, amcanion busnes ac elusennol y sefydliad a'n cenhadaeth ganolog.
- Gwasanaethu fel eiriolwr amlwg a hyrwyddwr Hijinx, gan hyrwyddo ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yng Nghymru, ar draws y Deyrnas Unedig ac ar y llwyfan rhyngwladol.



# CYFRIFOLDEBAU (2)

**GORUCHWYLIAETH STRATEGOL**

- Darparu arweiniad strategol a gweithredol cynhwysfawr, gyda phwyslais penodol ar reolaeth ariannol a phobl, creu incwm a holl ymrwymiadau cyfreithiol a chontractaidd y cwmni.
- Rheoli twf y sefydliad yn effeithiol, gan sicrhau bod Hijinx yn parhau i gynnig profiadau eithriadol, o safon uchel, i gyfranogwyr, cynulleidfaoedd a phartneriaid.
- Rheoli a bodloni anghenion sefydliad sy'n tyfu'n gyflym a, thrwy dimau creadigol, cyflawni profiadau eithriadol, o safon uchel i gyfranogwyr, cynulleidfaoedd a phartneriaid.

**CYFATHREBU, CYDWEITHIO A RHEOLI PERTHYNAS**

- Arwain y sefydliad gyda phroffesiynoldeb, gan sicrhau bod amcanion yn cael eu cyfleu a'u cyflawni'n brydlon i randdeiliaid mewnol ac allanol.
- Ceisio a meithrin perthynas gyda phartneriaid a chydweithwyr creadigol a chyllido newydd yn weithredol, yn genedlaethol a rhyngwladol, i gryfhau cyrraedd ac effaith Hijinx.
- Sefydlu a chynnal perthynas waith gref gyda rhanddeiliaid allweddol fel y bydd amser yn caniatáu, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Wales Arts International, y Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cymru, gan feithrin amgylchedd cydweithredol sy'n cefnogi nodau strategol Hijinx

**RHEOLI RISG A MONITRO PERFFORMIAD**

- Dynodi, rheoli a lliniaru risgiau'n weithredol, gan sicrhau bod adroddiad am unrhyw risgiau ariannol, cyfreithiol neu i enw da yn cael ei roi i'r Bwrdd neu Ymddiriedolwyr mewn modd amserol. Sicrhau bod systemau priodol yn cael eu gweithredu a rheolaeth ar risg trwy'r sefydliad.
- Monitro dangosyddion perfformiad allweddol i gynnal goruchwyliaeth glir ar berfformiad a chostau, gan sicrhau gwytnwch a chynaliadwyedd y sefydliad.

**CYFARWYDDWR A'R RHEOLWR GWEITHREDIADAU**

- Cydweithio gyda'r Tîm Rheoli i sicrhau bod modelau ariannol a gweithredol Hijinx yn gadarn, yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac ariannol, ac yn cadw at arferion gorau'r diwydiant, gan gynnwys iechyd a diogelwch, adnoddau dynol a diogelu.
- Fel Ysgrifennydd y Cwmni i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, cefnogi llywodraethu effeithiol, gan alluogi'r Bwrdd i graffu ar waith Hijinx a'i gefnogi, gan ddiogelu dyfodol yr elusen.
- Rheoli cyllidebau Hijinx yn effeithiol, gan gynllunio ar gyfer twf a chynyddu arian wrth gefn yn unol â'r Polisi Arian Wrth Gefn.




# CYFRIFOLDEBAU (3)

**CYDYMFFURFIO A RHEOLI ANSAWDD**

- Meithrin diwylliant o archwilio, rheoli ansawdd a chydymffurfio, gan sicrhau bod yr holl weithrediadau, polisïau a gweithdrefnau yn bodloni safonau rheoleiddiol. Sicrhau bod adroddiadau prydlon yn cael eu rhoi i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau gan fodloni'r holl ymrwymiadau statudol a rheoleiddiol.
- Goruchwylio triniaeth deg i staff, cyfranogwyr a gweithwyr llawrydd, gan sicrhau eu diogelwch, iechyd a llesiant.

**YR IAITH GYMRAEG, CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH & CYNHWYSIANT (EDI), A CHYNALIADWYEDD:**

- Eiriol dros ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sefydliad a chyfrannu at ddatblygu ein Cynllun Iaith Gymraeg.
- Cydweithio ar draws y sefydliad ac arwain ar ein cynlluniau cydraddoldeb strategol.
- Hyrwyddo strategaethau sy'n cyd-fynd â'n Polisi Cynaliadwyedd a Llyfr Gwyrdd y Theatr, gan bwysleisio arferion eco-gyfeillgar.

Mae gan Hijinx ddull cydweithredol o weithio lle mae staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sydd ei hangen i sicrhau bod y cwmni'n rhedeg yn llyfn a'n gwaith yn cael ei gyflawni.

Yn ogystal a'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrwyd ac yn unol â'n dull cydweithredol, gall fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith arall cyffredinol sy'n briodol i'w swydd ar gyfarwyddyd y Bwrdd.

# Manyleb Person

Yn Hijinx, rydym wedi ymrwymo i lunio tîm cryf ac amrywiol, felly os ydych yn meddwl bod gennych yr hyn sydd ei angen, ond nad ydych o angenrheidrwydd yn bodloni pob pwynt unigol yn y disgrifiad swydd, os gwelwch yn dda ymgeisiwch er hynny a dweud pam wrthym.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gallu** | | |
| Sgiliau eiriol, dylanwadu a negodi cryf | X | |
| Gallu rhagorol i gyfathrebu a llunio perthynas, gyda thalent ar gyfer meithrin cydweithrediad a phartneriaethau yn gyflym | X | |
| Y gallu i arwain ac ysbrydoli, gan ddangos angerdd dros y celfyddydau | X | |
| Gallu ariannol cryf a sgiliau cynllunio strategol | X | |
| Y gallu i fod â gweledigaeth tymor hir ond hefyd gweithredu’n gyflym a phendant o ran materion o ddydd i ddydd | X | |
| Y gallu i siarad Cymraeg | | X |
| Parodrwydd i ddilyn hyfforddiant Cymraeg ar ôl eich penodi | X | |
| Rhywun sydd wedi cymell ei hun gyda sgiliau trefniadol a rheoli amser o’r safon uchaf, a’r gallu i reoli a chyflawni nifer o flaenoriaethau | X | |
| Y gallu i weithio’n greadigol a chydweithredol i ddatrys problemau | X | |
| **Profiad** | | |
| Profiad o gynllunio a rheoli ariannol | X | |
| Profiad o arwain, rheoli ac ysgogi timau staff | X | |
| Profiad arwain profedig yn y sectorau celfyddydau, diwylliant neu nid er elw, gydag angerdd dros gynhwysiant ac effaith cymdeithasol | X | |
| Profiad o weithio gyda bwrdd o ymddiriedolwyr a rhoi adroddiadau iddynt | X | |
| Profiad o weithio gydag ymgynghorwyr allanol | | X |
| Profiad o arwain ar newid strategol | X | |
| Profiad o ddatblygu perthynas gyda phartneriaid gan gynnwys yn rhyngwladol | X | |
| Profiad o ryngweithio â phobl ag anableddau dysgu naill ai yn bersonol neu yn broffesiynol | | X |

# Manyleb Person (2)

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | |
| Dealltwriaeth o lywodraethu elusen a swyddogaeth bwrdd ymddiriedolwyr | X | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r materion cydymffurfio ariannol a chyfreithiol perthnasol | X | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r tirlun codi arian presennol | X | |
| Ymwybyddiaeth o dueddiadau a datblygiadau presennol mewn cynhwysiant a theatr | | X |
| Gwybodaeth am y sector celfyddydol yn y Deyrnas Unedig | | X |
| Dealltwriaeth o’r cyd-destun gwleidyddol ac economaidd i’r celfyddydau yng Nghymru | X | |
| **Agwedd** | | |
| Llawn cymhelliant ac yn angerddol am y celfyddydau | X | |
| Dull llawn gweledigaeth o arwain sefydliadau tuag at lwyddiant | X | |
| Ymrwymiad dwfn i gynhwysiant, amrywiaeth a llesiant staff ac aelodau o’r gymuned | X | |

DIM HILIAETH CYMRU

attitude is everything

itc Ethical Manager Member

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# TELERAU

| | |
|---|---|
| Rheolwr Llinell: | Y Bwrdd Ymddiriedolwyr |
| Yn gyfrifol am: | Cyfarwyddwr Artistig, Rheolwr Ariannol, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, Swyddog Datblygu, Pennaeth Theatr, Pennaeth Ffilm, Cyfarwyddwr Academi, Pennaeth Pawb, Pennaeth Datblygu Busnes (Rhannu Swydd) |
| Hyd y contract: | Swydd dros dro am 6 mis |
| Oriau: | Llawn amser, 5 diwrnod yr wythnos (37.5 awr yr wythnos) gyda rhywfaint o ymrwymiadau min nos a phenwythnos y bydd amser o'r gwaith yn cael ei roi yn eu lle. |
| Yn gweithio o: | I weithio o Gaerdydd gan deithio trwy Gymru i gefnogi ein Canolfannau ac ymhellach yn achlysurol. Hyblyg / hybrid ar gael gydag isafswm o ddau ddiwrnod yn y swyddfa bob wythnos. |
| Cyflog a Buddion: | £60,000 y flwyddyn (pro rata ar gyfer y cyfnod penodol 6 mis)<br>Ar gyfer staff cyflogedig mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cymorth Gweithwyr. Rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau yn yr iaith Gymraeg. |
| Hawl i wyliau: | 25 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc (pro rata ar gyfer y cyfnod penodol 6 mis) |
| Dyddiad Dechrau | Yn ddelfrydol dechrau Mai 2024 |



**NODIADAU CYFFREDINOL**

- Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.
- Mae tîm Hijinx yn fach, ond yn ystwyth, ac yn cyflawni'n uwch o lawer na'r disgwyl, gyda chymorth criw rhyfeddol o weithwyr ar eu liwt eu hunain a gwirfoddolwyr.
- Rydym yn datblygu ac annog ein gweithwyr i dyfu yn eu rolau a bod y gorau y gallant fod.
- Anelwn at ymagwedd gydweithredol at waith lle mae aelodau staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei gynnal yn ddidrafferth a bod y gwaith yn cael ei gyflawni.
- Mae'r Pecyn Swydd hwn yn ddangosol yn hytrach na chynhwysfawr, a bydd angen agwedd hyblyg at rôl a thasgau'r swydd.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.
- Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.



# I WNEUD CAIS

Os ydych yn credu eich bod yn addas i'r rôl ac yr hoffech wneud cais, anfonwch y canlynol atom:

1. CV cyfredol sy'n sôn am eich profiad gwaith hyd yma – gwnewch yn siŵr eich bod yn amlygu profiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.

2. Llythyr eglurhaol – nad yw'n hwy na dwy ochr – sy'n dweud wrthym pam yr ydych yn ymgeisydd delfrydol a sut byddwch yn mynd ati i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.

3. Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi'i llenwi – y dylid ei llenwi ar-lein yma – cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at hr@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

Bydd ceisiadau yn cau am 10am 18/04/24.
Trefnir cyfweliadau ar gyfer yr wythnos sy'n cychwyn ar 28/04/24.

AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
Os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd, os oes arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol eraill, neu os hoffech gael y wybodaeth am y rôl mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar hr@hijinx.org.uk

**Cynllun Gwarant o Gyfweliad**

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu Cynllun Gwarant o Gyfweliad i ymgeiswyr sy'n cael eu tangynrychioli ar ein tîm.

Gallwch ofyn am gael eich ystyried dan ein Cynllun Gwarant o Gyfweliad os ydych yn unigolyn o'r Mwyafrif Byd-eang neu os oes gennych nam corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith negyddol tymor hir ar eich gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi ym manyleb y swydd, fe'ch gwahoddir i gyfweliad. Dim ond gyda thîm Adnoddau Dynol Hijinx a'r rheolwr recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad wedi ei warantu yn cael ei rannu. Os hoffech gael eich ystyried dan y cynllun, nodwch hyn yn eich llythyr esboniadol.

**Recriwtio Dienw**

Mae Hijinx yn gweithredu recriwtio dienw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad yr ymgeisydd yn ystod y broses llunio rhestr fer.

**Cwestiynau'r cyfweliad**

Er mwyn sicrhau bod ein proses gyfweld yn hygyrch i'r gronfa ehangaf o ymgeiswyr, byddwn yn darparu fformat a chwestiynau'r cyfweliad i ymgeiswyr ymlaen llaw.